Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 10.02.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## DIGWYDDIAD: Gweminar Busnes@gwynedd.llyw.cymru – Defnyddio Technoleg ar gyfer Effeithlonrwydd Busnes, 28 Chwefror 2022

Bydd Busnes@gwynedd.llyw.cymru yn cynnal gweminar ar gyfer busnesau bach neu ganolig eu maint, wedi'u lleoli yng Ngwynedd, ar 28 Chwefror 2023 (9:30am-11:00am) fydd yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio technoleg ar gyfer effeithlonrwydd busnes a chynyddu refeniw. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3YuiCd2

## CYMORTH: Busnesau a sefydliadau oddi ar y grid nwy i dderbyn cymorth biliau ynni

Bydd busnesau a sefydliadau cymwys, sy'n defnyddio ffynonellau ynni amgen fel olew gwresogi, biomas a nwy petroliwm hylifol (LPG) i gynhesu eu hadeiladau, yn disgwyl derbyn credyd o £150 drwy'r cynllun Taliad Tanwydd Amgen Annomestig (ND-AFP) erbyn 10 Mawrth 2023. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

http://bit.ly/3I7dUfV

## HYFFORDDIANT: Cymorth i Dyfu | Cwrs Rheolaeth

Mae rhaglen Llywodraeth y DU, Cymorth i Dyfu: Cynllun Rheolaeth, wedi'i gynllunio i fod yn hylaw ochr yn ochr â gwaith llawn amser, ac mae'n cefnogi arweinwyr busnesau bach i ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, arloesi a mabwysiadu digidol. Mae mwy o wybodaeth am y cwrs nesaf, fydd yn dechrau ar 27 Mawrth 2023 yn Ysgol Busnes Bangor, ar gael ar:

https://lnkd.in/eGghqMaQ

Mae gwybodaeth gyffredinol am raglenni Cymorth i Dyfu ar gael ar:

https://helptogrow.campaign.gov.uk/

## DIGIDOL: Cyflymu Cymru i Fusnesau – Gweminarau am ddim

Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau ystod o weminarau rhad ac am ddim yn yr wythnosau nesaf yn cynnig cyngor ymarferol ar redeg busnes ar-lein, marchnata digidol a chystadlu ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

# NEWYDDION: Canmol prentisiaid dwyieithog yn Antur Waunfawr wedi iddynt ddatblygu gyrfaoedd addawol

Wrth i Wythnos Prentisiaethau ddirwyn i ben, bu canmol ymdrechion dau brentis yng Nghaernarfon, yn agos at gwblhau prentisiaethau mewn Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy. Mae'r prentisiaethau wedi eu harwain i ddatblygu gyrfaoedd addawol yn rheoli siop feics Antur Waunfawr, Beics Antur, yn Waunfawr a Chaernarfon. I ddarllen mwy am y stori, ewch i:

http://bit.ly/3YhnAdH

Mae gwybodaeth am recriwtio prentisiaid ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau

# DIGWYDDIAD: Torri costau ac allyriadau carbon i fusnes 14 Chwefror 2023

Yn y digwyddiad wyneb yn wyneb am ddim yma, i'w gynnal ym Mharc Gwyddoniaeth M-SParc, Gaerwen, LL60 6AG, ar 14 Chwefror 2023 (10:00am-12:00pm), bydd cyfle i glywed am ddatrysiadau i gostau ynni, yn ogystal â chyngor ar y grantiau a'r cymorth sydd ar gael i fusnesau lleol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3WZk8TB

# CYSTADLEUAETH: Gwireddu'r Anhygoel – enillwch £7,500 i dyfu eich busnes

Mae Enterprise Nation a VistaPrint wedi dod at ei gilydd i ddarparu rhaglen grant arian parod fydd yn gweld 20 o fusnesau bach o bob cwr o'r Deyrnas Unedig yn ennill £7,500 yr un, ochr yn ochr â chymorth ac arbenigedd marchnata a dylunio, i helpu eu busnes i ffynnu.
Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3XeqwX4

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru